Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

| | |
|---|---|
| **Reference** | JPCC1314 |
| **Date** | 19 Medi 2014 |
| **Pages** | **1** of **2** |

Y Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio
d/o Cyngor Gwynedd
Pencadlys
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH

**Y Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio: Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014**

Annwyl Gynghorwyr

Mae'r Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am roi barn:

- ar a yw'r wybodaeth yn Natganiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 yn unol â gofynion Archwilydd yffredinol Cymru; ac
- nad yw unrhyw faterion a ddaeth i sylw'r Archwilydd yn destun pryder nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddio wedi'u bodloni.

Daeth y Datganiad Blynyddol drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 i law ar 30 Mehefin 2014, y dyddiad cau statudol, ac rydym wedi cwblhau ein gwaith archwilio fwy neu lai erbyn hyn. Nid oes unrhyw broblem r yn codi y credwn y dylech chi ei ystyried cyn cymeradwyo Datganiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau).

## Adroddiad archwilio arfaethedig

Ein bwriad yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiad blynyddol ac nid oes unrhyw faterion eraill y dymunwn eu tynnu i sylw'r Cyd-Bwyllgor

## Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn

Nid oes unrhyw faterion eraill yn effeithio ar ein barn yr hoffem dynnu sylw'r Pwyllgor atynt.

**Camddatganiadau yn y Datganiadau Cyfrifyddu**

Nid oes unrhyw gamddatganiadau yn Adran 1: Datganiadau cyfrifyddu nad ydynt wedi'u cywiro.

**Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol**

Dylai'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio "Adran 3: Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol" yn unol â Rheoliad 8 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (Rheoliadau 8B (1), 8B (2) a 8B (3)).
Yna, dylai'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol a dylai Cadeirydd y cyfarfod sy'n cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol lofnodi "Adran 3: Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor". Ar ôl i'r Datganiad Blynyddol gael ei gymeradwyo, dylid ei anfon i'r cyfeiriad uchod. Ar ôl i ni dderbyn y Datganiad Blynyddol, byddwn yn cwblhau "Adran 3: Adroddiad Archwilwyr Allanol" ac yn anfon hysbysiad o gasgliad yr archwiliad atoch.

Yn gywir



**Derwyn Owen**
**Arweinydd Ymgysylltu**

**Ar ran yr Archwilydd Penodedig**